

Cynnwys

Rhaglen	2
5 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf	6
8 - Cefnogaeth i Fusnesau	10
9 - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon 2011-26	12
10 - Cwynion Iaith	13



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR IAITH
LANGUAGE COMMITTEE

10.30AM, DYDD IAU, 29 IONAWR, 2015

10.30AM, THURSDAY, 29 JANUARY, 2015

Lleoliad / Location

SIAMBR HYWEL DDA,
SWYDDFA'R CYNGOR / COUNCIL OFFICES,
STRYD Y JÊL / SHIREHALL STREET,
CAERNARFON

Pwynt Cyswllt / Contact Point

EIRIAN ROBERTS

(01286) 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 23/01/15)

PWYLLGOR IAITH LANGUAGE COMMITTEE

AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (7)

Y Cyngorwyr/Councillors

Craig ab Iago

Elwyn Edwards

Alan Jones Evans

Sian Gwenllian

Charles W. Jones

Liz Saville Roberts

Hefin Williams

Annibynnol/Independent (4)

Y Cyngorwyr/Councillors

Tom Ellis

Eric M. Jones

Eirwyn Williams

Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cyngorwyr/Councillors

Gweno Glyn

Alwyn Gruffydd

Gruffydd Williams

Aelod Unigol / Individual Member (1)

[sedd wag / vacant seat]

Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

Aelod Arall a Wahoddir / Other Invited Member

Y Cyngorhydd / Councillor Ioan Thomas – Aelod Cabinet – Y Gymraeg / Cabinet Member – The Welsh Language

RHAGLEN

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd am weddill 2014/15.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

4. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

5. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm).

6. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Ystyried adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg.

7. CREU MARCHNAD LAFUR GYMRAEG

Derbyn cyflwyniad gan Meirion Davies, Cyfarwyddwr Datblygu Menter Iaith Conwy.

8. CEFNOGAETH I FUSNESAU

- (a) Ystyried adroddiad y Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm)
- (b) Derbyn cyflwyniad byr gan Dwynwen Hywel o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am y gwasanaethau sydd ar gael i fusnesau gan y Comisiynydd.

9. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN 2011-26

Cyflwyno llythyr gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg (ynghlwm).

10. CWYNIION IAITH

- (a) Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

(b) Ystyried cŵyn ynglŷn â Chartrefi Cymunedol Gwynedd.

11. YMCHWILIADAU IAITH

Ystyried adroddiad llafar yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol.

PWYLLGOR IAITH, 23.10.14

Yn bresennol: Y Cyngorydd Mair Rowlands (Is-gadeirydd yn cadeirio).

Y Cyngorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Charles W. Jones, Liz Saville Roberts, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Mandy Williams-Davies.

Swyddogion: Arwel E. Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol) Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gweno Glyn ac Eric Merfyn Jones.

Croesawyd y Cyngorydd Charles W. Jones i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2014 fel rhai cywir.

Mater yn codi o'r cofnodion
Eitem 6 – Gosodiadau Tai Cymdeithasol

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith y disgwylid i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ymateb o fewn y dyddiau nesaf i lythyr y Gwasanaeth Tai yn nodi sylwadau a phryderon yr aelodau. Hyderid y byddai copi o'r ymateb ar gael i'r aelodau erbyn y cyfarfod nesaf.

3. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes. Trafodwyd y ddau brif fater a ganlyn yn codi o'r cyflwyniad:-

(A) Diffyg defnydd o'r Gymraeg mewn pwyllgorau a fforymau ar draws y Gogledd

Nodwyd:-

- Bod tueddiad i gynghorwyr a swyddogion droi i'r Saesneg mewn cyfarfodydd allanol, yn enwedig wrth ateb cwestiwn a ofynnir yn Saesneg, a phwysleisiwyd y dylid siarad Cymraeg bob amser mewn cyfarfodydd lle mae cyfieithydd yn bresennol.
- Bod cymal newydd yn y Cynllun Iaith yn datgan yn glir bod disgwyl i staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus, ac os nad oes offer cyfieithu ar gael, y dylent bwysu am hynny.

- O bosib' mai mater o ymwybyddiaeth iaith oedd hyn, a gellid darparu canllaw i'r staff yn amlinellu'r gofynion.
- Mai un o'r problemau yw diffyg hyder a gallai cadeirydd ddatgan ar ddechrau cyfarfod bod gofyn i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio troi i'r Saesneg. Hefyd, wrth gyflwyno'u hunain ar ddechrau cyfarfod, gallai aelodau ddatgan eu bwriad i siarad yn Gymraeg.
- Y dylai'r di-gymraeg wisgo'u clustffonau drwy gydol y cyfarfod fel y gall siaradwyr Cymraeg gychwyn siarad yn syth heb orfod oedi i ddisgwyl i bobl roi eu clustffonau ymlaen.
- Mai cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sefydlu iaith y pwyllgor a bod cyfarfod sy'n cael ei gadeirio gan berson di-gymraeg yn fwy tebygol o lithro i'r Saesneg.
- Bod hwn yn faes y gellid sefydlu Grŵp Ymchwil i edrych i mewn iddo a chytunwyd i drafod hyn ymhellach o dan eitem 7 ar y rhaglen.

PENDERFYNWYD

- Anfon neges at y Grŵp Busnes yn cyfleu pryder y pwyllgor hwn ynglŷn â diffyg defnydd aelodau o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol lle mae gwasanaeth cyfieithydd ar gael, ac yn tanlinellu pwysigrwydd glynu at ofynion y Cynllun Iaith.**
- Anfon neges at y Grŵp Rheoli Penaethiaid Gwasanaeth yn cyfleu pryder y pwyllgor hwn ynglŷn â diffyg defnydd swyddogion o'r Gymraeg, ac yn galw ar y penaethiaid i roi cefnogaeth ac anogaeth i'w staff ddefnyddio'r Gymraeg.**
- Gofyn i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith roi cyflwyniad i'r Grŵp Rheoli ar ofynion y Cynllun Iaith yn y cyd-destun hwn.**

(B) Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd

Nodwyd:-

- Bod y Siarter Iaith Ysgolion Cynradd wedi bod yn llwyddiant, gyda mwyafrif yr ysgolion yn cyrraedd y nod o safbwynt defnydd plant o'r iaith Gymraeg, ond byddai symud y math hwn o weithredu i ysgolion uwchradd yn dalcen caled.
- Ei bod yn bwysig bod hyfforddwyr chwaraeon ar ôl ysgol yn arddel y Gymraeg.
- Y gellid annog bod y Siarter Iaith yn cael ei chyflwyno i rieni hefyd.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Adran Addysg roi cyflwyniad i'r pwyllgor hwn ar y Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd.

Nododd aelod fod cynhadledd ddiweddar yn Aberystwyth ar y cysylltiad rhwng yr iaith a'r economi wedi derbyn cyflwyniadau gan fentrau iaith cymdeithasol oedd yn cynnig arweiniad ar sut i gryfhau economïau lleol o fewn y cymunedau er budd y Gymraeg. Un awgrym a wyntyllwyd oedd y syniad o greu marchnad lafur Gymraeg, sef creu marchnad twf o gwmpas gwaith ac economi sy'n dibynnu ar sgiliau siarad Cymraeg. Nodwyd bod Menter Iaith Conwy wedi bod yn arwain ar hyn ac awgrymwyd gwahodd Meirion Davies, Cyfarwyddwr Datblygu'r Fenter, i roi cyflwyniad i'r pwyllgor hwn.

PENDERFYNWYD gwahodd Meirion Davies o Fenter Iaith Conwy i roi cyflwyniad i gyfarfod Ionawr o'r pwyllgor hwn ar y syniad o greu marchnad lafur Gymraeg, gan wahodd yr Aelod Cabinet Economi a'r swyddogion economi i fod yn bresennol.

4. POLISI GORFODI COMISIYNYDD Y GYMRAEG (DRAFFT)

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn gofyn am sylwadau'r pwyllgor ar y ddogfen er mwyn eu cyflwyno i'r Comisiynydd fel rhan o'r broses ymgynghori.

PENDERFYNWYD cyflwyno'r sylwadau a ganlyn i'r Comisiynydd:-

- Datgan lefel o siomiant nad yw'r pwerau a amlinellir yn ddigon grymus.
- Er bod y ddogfen yn amlinellu dulliau heblaw am gwynion i ganfod diffyg cydymffurfiaeth, dylid derbyn sicrwydd y byddai dulliau eraill, megis ymchwiliadau statudol hefyd yn cael eu defnyddio'n helaeth gan y Comisiynydd.

5. STRWYTHUR YMCHWIL AR GYFER Y PWYLLGOR IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn gofyn am sylwadau'r pwyllgor ar yr awgrymiadau strwythurol a amlinellwyd yn yr adroddiad a'r blaenoriaethau ar gyfer meysydd ymchwil pellach.

Hysbysodd y Pencampwr Iaith y pwyllgor fod ganddo restr hir o syniadau ar gyfer ymchwiliadau.

PENDERFYNWYD

(a) Cymeradwyo'r strwythur ymchwil a ganlyn:-

- Cynnal un ymchwiliad yn unig ar y tro, gydag uchafswm o 2 ymchwiliad o fewn blwyddyn galendr (yn unol â'r drefn ymchwiliadau craffu).
 - Y dylai'r ymchwiliadau edrych ar bolisiau a gweithdrefnau'r Cyngor yn y lle cyntaf.
- (b) Sefydlu ymchwiliad i edrych ar y defnydd o'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith ymysg staff ac aelodau'r Cyngor, gan benodi'r Cadeirydd, y Cynghorydd Gweno Glyn, ynghyd â'r Cynghorwyr Craig ab Iago, Charles Wyn Jones, Liz Saville Roberts ac Elfed Williams yn aelodau o'r Grŵp Ymchwiliad. Dylid paratoi briff drafft a galw cyfarfod cyntaf yr ymchwiliad o fewn 4-6 wythnos, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ymhen tua 6 mis. Fel rhan o'r gwaith, gofynnir i'r ymchwiliad ystyried llunio protocol ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus.**
- (c) Cylchredeg rhestr syniadau'r Pencampwr Iaith i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf a gosod y mater hwn fel eitem sefydlog ar raglen pob cyfarfod er mwyn cael syniadau'r Pencampwr.**

6. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CYNGOR 2013/14

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cyflwyno sylwadau'r Comisiynydd ar Adroddiad Monitro Iaith Blynyddol Cyngor Gwynedd 2013/14 ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r cais am wybodaeth bellach.

Manteisiodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ar y cyfle i roi diweddariad i'r aelodau ar y Safonau Iaith. Eglurodd y cafwyd gwybod yn ddiweddar iawn fod yr amserlen wedi newid eto, ac yn ôl ei dealltwriaeth o'r sefyllfa ar hyn o bryd, byddai rheoliadau'r safonau yn cael eu cyhoeddi yn ystod mis Tachwedd. Yn dilyn hynny byddai yna gyfnod ymgynghori o 4 wythnos gyda phleidlais ar y Safonau yn y Llywodraeth tua diwedd Chwefror – dechrau

Mawrth 2015. Gobeithid derbyn yr hysbysebau cydymffurfio yn Ebrill, ac 'roedd yn cymryd na fyddai yna newid o'r 6 mis gwreiddiol a ragwelwyd rhwng yr hysbysiad a'r cydymffurfio.

Atgoffodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yr aelodau o'u penderfyniad i wahodd y Comisiynydd i gyfarfod arbennig o'r pwyllgor hwn ddechrau'r flwyddyn yn sgil cyhoeddi'r Safonau, ond gan fod yr amserlen wedi llithro, cafwyd ymateb gan y swyddfa yn datgan y byddai'r cyfnod dechrau'r flwyddyn yn debygol o fod yn un o ymgynghori rhwng y Comisiynydd a'r Cyngor ynglŷn â'r hysbysiad ffurfiol, ac felly na fyddai'n briodol i'r Comisiynydd roi cyflwyniad ar y Safonau.

Gan gyfeirio at ofyn gweithredu 5(A) yn Ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Monitro Blyneddol, a sylw'r Cyngor mai 3 aelod etholedig yn unig oedd wedi derbyn yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, nodwyd bod y derminoleg yn gamarweiniol gan ei bod yn awgrymu mai cyflwyniad ar gyfer y di-gymraeg ydoedd, yn hytrach na hyfforddiant addas ar gyfer pawb. Awgrymwyd newid y derminoleg i rywbeth mwy priodol pan gynhelir yr hyfforddiant eto yn 2015.

PENDERFYNWYD derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg ac ymateb y Cyngor i'r cais am wybodaeth bellach.

7. Cwynion Iaith

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law.

Gan gyfeirio at y gŵyn ynglŷn â'r defnydd o enwau dwyieithog ar strydoedd Gwynedd, holwyd a oedd yr Adran Ymgynghoriaeth yn cydweithio gyda Mynyddoedd Pawb a'r Gymdeithas Enwau Lleoedd ar ddarparu'r polisi newydd ar enwau strydoedd. Cytunodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith i basio hyn ymlaen fel sylw i'r Ymgynghoriaeth.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.15pm

PWYLLGOR	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	29 Ionawr 2015
TEITL YR ADRODDIAD	Cefnogaeth i Fusnesau
ARGYMHELLIAD	Er Gwybodaeth
AWDUR	Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith

1. CEFNDIR

- 1.1. Gofynnwyd yn y Pwyllgor Iaith am adroddiad o'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud a'r hyn mae modd iddo'i wneud i hyrwyddo busnesau lleol i wneud y defnydd gorau o'r iaith Gymraeg.
- 1.2. Er mwyn cyflwyno darlun cynhwysfawr, penderfynwyd gwahodd yn ogystal y Swyddog perthnasol o Swyddfa'r Comisiynydd i roi amlinelliad o rôl y Comisiynydd yn y broses o hyrwyddo'r Gymraeg ym myd busnes.

2. RÔL Y CYNGOR

- 2.1. Mae'r Cyngor yn rheoli a gweinyddu nifer o gynlluniau nawdd a grantiau i fusnes, a dyma'r prif ddull o ddylanwadu ar y maes hwn. Ceir amodau a thelerau pendant o safbwynt y Gymraeg ynghlwm a phob cynnig. Y nod yw cydweithio gyda busnesau i gyrraedd y nod, ond ceir cymal yn y Cynllun Iaith sy'n caniatáu i'r Cyngor yn y pen draw atal nawdd ar sail diffyg cydymffurfiaeth ag amodau ieithyddol.
- 2.2. Dylid nodi na allwn osod amodau ieithyddol ar yr hyn nad ydym yn ariannu. Er enghraifft, os yw cwmni'n derbyn nawdd ar gyfer offer technoleg gwybodaeth, ni allwn fynnu eu bod yn gosod arwyddion dwyieithog. Dan amgylchiadau o'r math, fodd bynnag, byddwn yn manteisio ar y cyfle i hyrwyddo'r iaith ac i dynnu sylw at yr achos busnes dros ddefnyddio'r Gymraeg. Gyda hyn mewn golwg, cynhyrchwyd y daflen *Hwb i'r Iaith, Hwb i'ch Gwaith*.
- 2.3. Mewn perthynas â phecynnau grant i'r dyfodol, mae bwriad i barhau gydag yr amodau ieithyddol presennol ac i adolygu a diweddarau'r daflen *Hwb i'r Iaith* os yw adnoddau yn caniatáu.

3. RÔL Y COMISIYNYDD

- 3.1. O fewn strwythur swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae yna swyddogaeth benodol ar gyfer y sector busnes a'r trydydd sector, gyda Swyddog yn gwasanaethu ardaloedd Gwynedd, Môn, Conwy a Gogledd Ceredigion.
- 3.2. Ni does arian penodol ar gael i fusnesau drwy'r Comisiynydd, ond cynigir gwasanaeth prawf ddalen a chywiro testun dwyieithog am ddim i hyd at 1,000 o eiriau. Mae'r gwasanaeth yma ar gael i fusnesau a'r trydydd sector.
- 3.3. Mae'n debygol yn ogystal dan y safonau Iaith, y gosodir gofynion statudol ar fusnesau sy'n derbyn dros £400,000 o arian cyhoeddus.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Swyddfa'r Gogledd
10 Stryd y Plas
Caernarfon
Gwynedd

LL55 1RR

01286 662908

gogledd@cymdeithas.org

Y Cyngorydd Gweno Glyn
Cadeirydd
Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd

5 Tachwedd, 2014

Annwyl Gyngorydd Gweno Glyn,

Parthed: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-26

Byddem yn ddiolchgar i chi pe baech mor garedig â dwyn y llythyr hwn i sylw aelodau Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd yn ei gyfarfod nesaf.

Fel y gwyddoch, mae cryn bryder wedi ei fynegi ynghylch yr uchod a chafwyd beirniadaeth gyhoeddus o'r cynllun am sawl rheswm. Dyma fater a fydd yn effeithio ar dynged y Gymraeg yng Ngwynedd a Môn.

Yr ydym yn anfon atoch ynglyn â rhan a swyddogaethau Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd yn y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol.

Fel y gwyddoch, mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno drafft ymgynghorol o'r Cynllun Adnau i'r Cabinet fis nesaf, a byddem yn falch iawn pe baech yn rhoi gwybod inni:

1. Sut mae'r Pwyllgor Iaith wedi bod yn craffu hyd yma yn y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol?
2. Sut mae'r Pwyllgor Iaith wedi ymateb i'r diffygion amlwg sydd yn y model a ddefnyddiwyd hyd yma i asesu effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar y Gymraeg? Mae adroddiad yr asesiad effaith ieithyddol yn cynnwys anghysonderau a gwrth-ddweud, ac mae'r casgliadau yn amwys, ac yn ddi-sail oherwydd diffyg tystiolaeth feintiol. Rydym yn siwr y cytunwch â ni fod hyn yn fater difrifol iawn, ac y dylid ei gywiro yn ddiymdroi.
3. Sut mae'r Pwyllgor Iaith yn craffu ar y Cynllun Adnau?
4. A yw'r model a ddefnyddir i asesu effaith ieithyddol y Cynllun Adnau yn addas? Mae hyn yn allweddol.

Diolch i chi am eich cydweithrediad. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Osian Jones
Swyddog Maes y Gogledd

cc Y Cyng. Mair Rowlands, Is-gadeirydd

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	IONAWR 29 2015
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Hydref 2014	Cwyn drwy Swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â defnyddiwr Gwasanaethau Cymdeithasol a dderbyniodd neges uniaith Saesneg	Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymchwilio'r mater, canfod camgymeriad ac ymddiheuro. Wedi derbyn cadarnhad gan Swyddfa'r Comisiynydd eu bod yn hapus gyda'r ymateb, ac yn derbyn mai digwyddiad unigol oedd hwn, yn hytrach na symptom o ddiffyg ehangach.
Tachwedd 2014	Cwyn ynglŷn â llythyr uniaith Saesneg wedi'i dderbyn gan Wasanaethau Cymdeithasol	Y Gwasanaeth wedi ymchwilio'r mater, canfod camgymeriad ac ymddiheuro
Tachwedd 2014	Cwyn gan gyn-aelod o staff na dderbyniodd P45 yn y Gymraeg	Yr Adran Gyllid yn ymchwilio'r mater
Rhagfyr 2014	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am fethiant i weithredu yn unol â dewis iaith mewn seremoni priodas	Y Gwasanaeth wedi ymchwilio i'r mater, canfod achos y camgymeriad, cymryd camau i addasu eu trefniadau ac ymddiheuro
Ionawr 2015	Cwyn gan rhiant bod ysgol wedi dosbarthu deunydd gan drydydd parti a oedd yn uniaith Saesneg	Yr ysgol wedi ymddiheuro a'r darparwr allanol hefyd wedi cytuno i ddarparu fersiwn dwyieithog o'r deunydd o hyn allan